Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL:** **Cyllideb Atodol 2012-13**

**DYDDIAD:** **5 Chwefror 2013**

**GAN:** **Jane Hutt, Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**

Heddiw, fe gyhoeddais Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13.

Prif ddiben y Gyllideb Atodol hon yw dangos y newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2012-13 a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf. Mae'n nodi hefyd nifer o ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng Adrannau Llywodraeth Cymru a throsglwyddiadau ag Adrannau Llywodraeth y DU. Mae hefyd yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol.